| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Medi 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2011 / 12** |

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cafodd y datganiadau ariannol ar gyfer 2011 / 12 eu cymeradwyo, yn amodol ar archwiliad, gan y Prif Swyddog Ariannol fis Mehefin 2012. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig, gan gynnwys barn yr archwilydd allanol, yn ffurfiol erbyn diwedd mis Medi. Cafodd cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Côd Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar IFRS ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2011 / 12 yn unol â'r Côd hwnnw.

Bu'n rhaid cydymffurfio â'r IFRS ers 2010 / 11 ac mae safonau neu ofynion newydd yn dal i gael eu cyflwyno. Y newid pennaf yng nghyfrifon 2011 / 12 yw bod dosbarth newydd o asedau wedi'i gyflwyno o'r enw asedau treftadaeth. Mae'r Cyngor, felly, wedi newid ei bolisïau cyfrifo a datgelu yn y cyfrifon i gydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn gyfrifo a thystysgrif archwilio diamod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau etholedig yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2011 / 12 sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Bydd gofyn i'r Cadeirydd ac i'r Prif Swyddog Ariannol lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr o Sylwadau yn y cyfarfod.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cafodd y cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno eu paratoi i gydymffurfio â'r safonau cyfrifo gofynnol.

Cyfres o safonau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio ledled y byd yw'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Cafodd y Safonau eu datblygu ar gyfer y sector breifat ond, mewn egwyddor, mae'r mwyafrif helaeth o drafodion yr un fath o ran cyfrifo beth bynnag yw'r sector. Gan fod yna rai meysydd lle mae triniaeth gyfrifo'r sector cyhoeddus yn wahanol i'r Safonau rhyngwladol (oherwydd, er enghraifft, gofynion deddfwriaethol) cafodd set ychwanegol o safonau eu cyflwyno ar eu cyfer sy'n cael eu galw yn Safonau Cyfrifo'r Sector Cyhoeddus.

Roedd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn ac maen nhw hefyd wedi bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Bu Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio'r cyfrifon a bydd trosolwg o'u canfyddiadau a'u hasesiad o'r broses yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Pwyllgor.

Arweiniodd y broses archwilio at rai newidiadau technegol ac at gywiriadau a newidiadau eraill. Bydd rhagor o fanylion o'r rhain yn cael eu cyflwyno yn adroddiad yr archwiliwr.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â'r tîm Cyllid er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn cael ei gwblhau mewn pryd ac yn llwyddiannus.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Unwaith eto, mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi derbyn barn archwilio ddiamod. Mae hyn yn gryn lwyddiant o gofio am faint a chymhlethdod y cyfrifon. Gweithiwyd yn galed yn 2010 / 11 i lwyddo i baratoi cyfrifon a fyddai'n cydymffurfio a'r safonau rhyngwladol newydd a bydd y broses o weithredu'r IFRS yn parhau fel y bydd gofynion newydd yn cael eu cyflwyno. Bydd gweithdrefnau mewnol yn cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor yn dal i ddarparu adroddiadau ariannol o ansawdd da.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Byddai’r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na byddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

## 10. Yr Hawl i Benderfynu

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.